I S - D D E D D F W R I A E T H

# Rhif LlC20-20

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Mangre Cylchol yn ystod y Pandemig COVID-19) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | 20 *Ebrill 2020* |
| *Yn dod i rym* | *21 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45, 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Mangre Cylchol yn ystod y Pandemig COVID-19) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu gwneud ar 20 Ebrill 2020 a deuant i rym ar 21 Ebrill 2020.

(4) Mae i'r geiriau a'r ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir yn y Cyfarwyddydau hyn yr un ystyr ag sydd i'r geiriau a'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yng Nghyfarwyddydau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

(**1**) 2006 p. 42.

(Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Mangre) (Cymru) 2015(**1**).

**Costau Mangre Cylchol yn ystod y Pandemig COVID-19**

**2.**—(1) Bydd contractwr sy’n cael cymorth ariannol ar gyfer costau mangre cylchol yn unol â Rhan 5 o Gyfarwyddydau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – Costau Mangre) (Cymru) 2015, ond nad yw’n gallu darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o’i fangre practis yn unol â’i gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol o ganlyniad i’r pandemig COVID-19, yn parhau i gael cymorth ariannol ar gyfer costau mangre cylchol am y cyfnod nad yw’r contractwr yn gallu darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o’r fangre practis.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i gontractwr sydd wedi cyflwyno hysbysiad o’i fwriad i derfynu ei gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn unol â pharagraff 106 o Atodlen 6 i Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(**2**) ar y dyddiad y daw’r Cyfarwyddydau hyn i rym neu cyn y dyddiad hwnnw.



**Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiad: 20 Ebrill 2020**

(**1**) 2015 Rhif 9.
(**2**) O.S. 2004/478 (Cy. 48). Mae diwygiadau iddo ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.